# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 03-07)

**Dyddiad y: 18 Medi 2007**
**Amser y: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

**Cylch gwaith:**

Cylch gwaith y Pwyllgor yw:-

1. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw'n *intra vires*;

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

2. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

3. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

5. Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy’n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy’n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

6. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae’n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

**Aelodau:**

Aelodau presennol y Pwyllgor yw:

Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)
Eleanor Burnham AC
Andrew RT Davies AC
Alun Davies AC
Paul Davies AC
Irene James AC
Sandy Mewies AC
Janet Ryder AC
Karen Sinclair AC

**Cynghorwyr Cyfreithiol:**
Gwyn Griffiths
Joanest Jackson

**Tîm Clercod:**

**Clerc y Pwyllgor:**
Chris Reading

**Dirprwy Glerc y Pwyllgor:**
Olga Lewis

**Swyddog Cymorth Gweinyddol:**
Hasera Khan

**Sut i gysylltu â ni:**

Os hoffech ddod i gyfarfod pwyllgor y Cynulliad mae angen archebu sedd ymlaen llaw, naill ai drwy ffonio:

**Llinell Archebu'r Cynulliad; 029 2089 8477**

Neu drwy anfon e-bost i archebu@cymru.gsi.gov.uk

Gallwch gysylltu â'r Pwyllgor drwy anfon e-bost i:

Legislation.comm@wales.gsi.gov.uk

**Neu gallwch siarad â Chris Reading, y Clerc ar 029 2089 8164**.

## CYNNWYS

Cyfarfu'r pwyllgor ar 18 Medi 2007. Yr oedd yr Aelodau canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Alun Davies AC, Paul Davies AC, Irene James AC, Sandy Mewies AC, Janet Ryder AC, Karen Sinclair AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleanor Burnham AC (Mick Bates AC yn ddirprwy).

Mae'r pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiadau canlynol i'r Cynulliad:

Is-ddeddfwriaeth i'w hystyried: Offerynnau Statudol ac Offerynnau Statudol drafft

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (Y Weithdrefn Negyddol)

**Offerynnau na chyflwynir adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog S.O.15.2:**

| | |
|---|---|
| **SLC8** | **Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 3 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 5 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 31 Gorffennaf 2007. |
| **SLC9** | **Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Awyrennau) (Diwygio) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 2 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 4 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Awst 2007. |
| **SLC10** | **Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Llongau) (Diwygio) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 3 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 4 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Awst 2007. |
| **SLC11** | **Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 10 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 13 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 7 Awst 2007. |
| **SLC14** | **Gorchymyn Coleg y Drindod Caerfyrddin (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Uwch) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 23 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 24 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2007. |
| **SLC16** | **Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 26 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 30 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2007. |

| | |
|---|---|
| **SLC17** | **Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 27 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 30 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 31 Gorffennaf 2007. |
| **SLC19** | **Rheoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E 128 Red 2G fel Lliw Bwyd) (Cymru) (Rhif 2) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 6 Awst 2007. Gosodwyd ar 6 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 7 Awst 2007. |
| **SLC25** | **Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 4 Awst 2007. Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2007. |
| **SLC27** | **Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 7 Awst 2007. Gosodwyd ar 9 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 7 Medi 2007. |
| **SLC28** | **Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 10 Awst 2007. Gosodwyd ar 10 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2007. |
| **SLC29** | **Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 8 Awst 2007. Gosodwyd ar 13 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 4 Medi 2007. |
| **SLC32** | **Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 14 Awst 2007. Gosodwyd ar 14 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 7 Medi 2007. |
| **SLC34** | **Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 20 Awst 2007. Gosodwyd ar 22 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 1 Hydref 2007. |
| **SLC35** | **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) (Diwygio) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 20 Awst 2007. Gosodwyd ar 22 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 12 Medi 2007. |

**Offerynnau y cyflwynir adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2:**

| | |
|---|---|
| **SLC13** | **Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 17 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 17 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 18 Gorffennaf 2007. |
| **SLC15** | **Rheoliadau Marchnata Defnyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 25 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 27 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 28 Awst 2007. |

| | |
|---|---|
| **SLC18** | **Rheoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E128 Red 2G fel Lliw Bwyd) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 1 Awst 2007. Gosodwyd ar 2 Awst 2007. Dyddiad dod i rym: 3 Awst 2007. |
| **SLC26** | **Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed am 4.45pm ar 8 Awst 2007. Gosodwyd ar 8 Awst 2007. Dyddiad ac amser dod i rym: 5.00pm ar 8 Awst 2007. |
| **SLC30** | **Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed am 3.30pm ar 13 Awst 2007. Gosodwyd ar 13 Awst 2007. Dyddiad ac amser dod i rym: 3.45pm ar 13 Awst 2007. |
| **SLC36** | **Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Cyfyngiadau Allforio) (Cymru) 2007**<br>Gweithdrefn Negyddol. Gwnaed ar 24 Awst 2007. Gosodwyd ar 28 Awst 2007. Dyddiad ac amser dod i rym: 11.00pm ar 24 Awst 2007. |

Offerynnau nad ydynt yn agored i'w cymeradwyo na'u dirymu (Dim Gweithdrefn)

**Offerynnau na chyflwynir adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog S.O.15.2:**

| | |
|---|---|
| **SLC12** | **Gorchymyn Ffurfiau Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007**<br>Dim gweithdrefn. Gwnaed ar 17 Gorffennaf 2007. Gosodwyd ar 17 Gorffennaf 2007. Dyddiad dod i rym: 18 Gorffennaf 2007. |

**Amgaeir adroddiadau'r Pwyllgor yn Atodiad 1- 6 i'r adroddiad hwn**

**Dr. Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

# Atodiad 1

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## *(SLC(3) 03-07)*

### SLC13

### Adroddiad gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r offeryn canlynol.**

**Teitl: Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 (“y prif Reoliadau”) er mwyn adlewyrchu’r diwygiadau a wnaed i Reoliad (EC) 999/2001 Senedd Ewrop a’r Cyngor drwy Reoliad y Comisiwn (EC) 722/2007 mewn perthynas â chategorïau newydd a symlach o safbwynt risg BSE mewn Aelod-wladwriaethau a gwledydd y tu allan i’r Gymuned. Caiff y prif Reoliadau eu diwygio drwy osod yn eu lle Rheoliadau cyfredol Atodlen 6 wedi’i diwygio.
Gwnaed a gosodwyd y Rheoliadau ar 17 Gorffennaf 2007 a daethant i rym ar 18 Gorffennaf 2007. Hysbyswyd y Llywydd o dorri’r rheol 21 niwrnod drwy gyfrwng llythyr gan y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes, yn dwyn y dyddiad 17 Gorffennaf 2007.

Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r offeryn hwn ar sail yr amodau isod:-

### Rheol Sefydlog 15.2(vi)

- Ym mharagraff 1(4) dylid cyfeirio at reoliad 18(3) yn lle rheoliad 14(3).
- Mae paragraffau 8, 10, 11, 12 ac 13 y testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd “through the gum”. Ym mharagraffau 8, 12 ac 13 o’r testun Cymraeg, defnyddir yr ymadrodd “drwy gig y dannedd” ond ym mharagraff 10 ac 11 defnyddir y geiriau “drwy’r deintgig”. Er y byddai’r ddau ymadrodd yn dderbyniol dylid sicrhau cysondeb o ran ymadroddion.
- Ym mharagraff 11 o’r testun Cymraeg, mae’r rhifo yn anghywir; mae paragraff cyfatebol 11(2)(c) y testun Saesneg yn ymddangos fel paragraff 11(3) yn y testun Cymraeg ac mae’r is-baragraffau sy’n dilyn yn y Gymraeg wedi’u rhifo’n anghywir fel is-baragraffau (4) a (5).
- Ym mharagraffau 13(2) ac 14(2) mae’r cyfeiriadau at reoliadau 6, 8, 9 a 10 yn anghywir. Y cyfeiriadau cywir yn y ddau achos yw at reoliadau 10, 12, 13 ac 14.

- Mae paragraff 14 y testun Saesneg yn cyfeirio at anifeiliaid sydd yn *30 mis oed neu'n iau*; mae'r testun cyfatebol yn Gymraeg yn cyfeirio at anifeiliaid sydd *dros 30 mis oed neu'n iau* pan gânt eu cigydda. O ystyried cysylltiad y paragraff hwn â pharagraff 9(1)(b) cymerir mai'r testun Saesneg sy'n gywir.
- Mae paragraff 19(3) yn cyfeirio at "Reoliad TSE y Gymuned"; mae pob cyfeiriad arall at y ddeddfwriaeth hon yn yr Atodlen 6 ddiwygiedig yn cyfeirio at "Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned".

## Rheol Sefydlog 15.2(viii)

Mae paragraff 16 o'r testun Saesneg yn cynnwys iaith ryw-benodol.

Er bod y prif Reoliadau yn adlewyrchu'r rheoliadau cyfatebol a wnaed mewn perthynas â Lloegr, hynny yw, Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy 2006; dirymwyd y rheiny gan Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Rhif 2) 2006 ("Rheoliadau Rhif 2"). Mae'n ymddangos bod y Rheoliadau cyfredol wedi'u drafftio drwy ddefnyddio fel cynsail reoliadau a oedd yn diwygio Rheoliadau Rhif 2. Arweiniodd hyn at y drafftio diffygiol a nodir uchod mewn perthynas â pharagraffau 1(4), 13(2) ac 14(2).

Cyfeirir yr Aelodau at eitem 2.1 yn yr Agenda hwn; mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007 (SLC17) yn diddymu'r Rheoliadau hyn ac yn eu hail-wneud.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**

# Atodiad 2

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3) 03-07)**

**SLC15**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

O dan Reol Sefydlog 15.2 gofynnir i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

**Teitl: Rheoliadau Marchnata Defnyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007**

Yn diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 drwy ddiweddaru'r rhestr o genera a rhywogaethau deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddynt.

**Trefn:** Negyddol

Gofynnir i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi):-

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig. O ganlyniad, dylid rhoi'r teitl Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Diwygio) (Cymru) ar y rheoliadau diwygio (fel y mae'n ymddangos yn y pennawd ac yn rheoliad 1(1))

**Dr Dai Lloyd AM**
Cadeirydd , Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**

# Atodiad 3

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3) 03-07)**

**SLC18**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

O dan Reol Sefydlog 15.2 gofynnir i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

**Teitl: Rheoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E128 Red 2G fel Lliw Bwyd) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2007 ar fesurau brys i atal defnyddio E 128 Red 2G fel lliw bwyd (OJ Rhif L195, 27.7.2007, t.8).

**Trefn:** Negyddol

Gofynnir i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn:-

**Rheol Sefydlog 15.2(vi)**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2

Mae'r diffiniad o "Reoliad y Comisiwn" (a thrydydd paragraff y rhaglith) yn nodi'r Rheoliad anghywir. Cyfeirir at y rhif cywir, sef 884/2007, yn y Nodyn Esboniadol, ond yn y testun, nodir y rhif 844/2007. Gan mai diben y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer gorfodi rhwymedigaethau'r Gymuned sy'n uniongyrchol gymwys, mae'n hanfodol cyfeirio at y darpariaethau cywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth greu troseddau (fel yn Rheoliad 3) sydd â dedfryd bosibl o garchar ynghlwm wrthynt. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

O ganlyniad, mae'r Rheoliadau hefyd yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(iv) gan eu bod yn gweithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn amhriodol.

Mae'r diffiniad o "awdurdod bwyd" yn Rheoliad 2(1) yn cyfeirio'n anghywir at adran 5(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, is-adran sy'n gymwys i Loegr yn unig. Is-adran (1A) yw'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer Cymru). [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Yn yr un modd, mae Rheoliad 2(2)(a) yn cyfeirio at adran 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, darpariaeth sy'n gymwys i Lundain yn unig. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Mae Rheoliad 2(2)(c) yn cyfeirio ar ddarpariaeth sy'n berthnasol i siroedd metropolitan, nad ydynt wedi bodoli yng Nghymru erioed. Mae hyn, felly, yn amhriodol. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Ar ôl i gyfreithwyr y Llywodraeth gael eu hysbysu ynghylch y diffygion uchod, cafodd y Rheoliadau'u hail-wneud i gywiro'r camgymeriadau: gweler SLC 19.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd , Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**

# Atodiad 4

# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

***(SLC(3) 03-07)***

**SLC26**

**Adroddiad i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol:**

**Teitl: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007**

- gweithredu yng Nghymru Benderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd 2007/552/EC sy'n gosod cyfyngiadau newydd ar anfon allan o'r Deyrnas Gyfunol bob anifail byw a allai ddal Clwy'r Traed a'r Genau a'r cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid o'r fath.

**Trefn:** Negyddol

**Rheol Sefydlog 15.2**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg). Cynghorwyd y Llywydd, oherwydd hyd a chymhlethdod y Rheoliadau a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, y credai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog o fewn cyfyngiadau'r amser ond y byddai cyfieithiad Cymraeg ar gael maes o law.

**Dr Dai Lloyd AM**
Cadeirydd , Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**

# Atodiad 5

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

*(SLC(3) 03-07)*

**SLC30**

## Adroddiad i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol:**

## Teitl: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2007

- gweithredu yng Nghymru Benderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd 2007/554/EC ynglŷn â rhai camau diogelu rhag Clwy'r Traed a'r Genau yn y Deyrnas Gyfunol a dirymu ac ailwneud gyda newidiadau y Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007. Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn a daethant i rym ar 13 Awst 2007 ac maent yn peidio â bod mewn grym ar 25ain Awst 2007.

**Trefn:** Negyddol

**Rheol Sefydlog 15.2**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg). Cynghorwyd y Llywydd, oherwydd hyd a chymhlethdod y Rheoliadau a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, y credai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog mewn da bryd ond y byddai cyfieithiad Cymraeg ar gael maes o law.

**Dr Dai Lloyd AM**
Cadeirydd , Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**

# Atodiad 6

# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3) 03-07)

**SLC36**

**Adroddiad i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

## O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol:

**Teitl: Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Cyfyngiadau Allforio) (Cymru) 2007**

- gweithredu yng Nghymru Benderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd 2007/554/EC ynglyn â rhai camau diogelu rhag Clwy'r Traed a'r Genau yn y Deyrnas Gyfunol a dirymu ac ailwneud gyda newidiadau y Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Rhif 2) (Cymru) 2007. Gwnaethpwyd, a daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 24 Awst 2007 ac maent yn peidio â bod yn effeithiol ar 15 Medi 2007.

**Trefn:** Negyddol

**Rheol Sefydlog 15.2**
Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol o dan Reol Sefydlog 15.2:-

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).

Cynghorwyd y Llywydd, oherwydd hyd a chymhlethdod y Rheoliadau a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, y credai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog mewn da bryd ond y byddai cyfieithiad Cymraeg ar gael maes o law.

**Dr Dai Lloyd AM**
Cadeirydd , Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**18 Medi 2007**